Mewnwelediad a Deallusrwydd Gorffennaf 2026

Yn ystod mis Gorffennaf 2026, ymwelodd tîm Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd â **6** o leoliadau ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen a siaradodd â chyfanswm o **61** pobl (**39** Benyw a **22** Gwryw). Bu'r tîm yn rhyngweithio â thrigolion ar draws amrywiol leoliadau, gan gynnwys lleoliadau cymunedol, digwyddiadau wedi'u trefnu ac yn eu gweithleoedd trwy gyflogwyr mawr.

Beth wnaethon ni ei glywed y mis hwn?

- Mynediad at apwyntiadau meddygol: Codwyd pryderon ynghylch y defnydd cynyddol o systemau trefnu ar-lein a chodau QR ar gyfer cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Nid oes gan rai pobl hŷn fynediad at ffonau clyfar neu dechnoleg ddigidol, ac mae hyn yn creu rhwystrau o ran ceisio trefnu apwyntiadau. O ganlyniad, efallai bod rhai unigolion yn rhoi'r gorau i geisio gofal, gan adael pryderon iechyd heb eu trin o bosibl.
- Rhwystrau iaith mewn lleoliadau gofal iechyd: Nodwyd bod rhwystrau iaith yn ystod apwyntiadau meddygol yn her i rai cymunedau amrywiol. Mae llawer o unigolion yn dibynnu ar aelodau o'r teulu i weithredu fel cyfieithwyr, a all weithiau arwain at gyfieithu anghywir a chyfrannu at gamddealltwriaeth rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- Ymwybyddiaeth o Wasanaeth Anhwylderau Cyffredin y Fferyllfa: Roedd yr adborth ar y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin yn gymysg. Er bod rhai pobl wedi adrodd eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd ac y teimlo ei fod o fudd, doedd eraill ddim yn ymwybodol ei fod yn bodoli.
- Mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG: Mae mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn parhau i beri pryder mawr i drigolion. Adroddodd llawer o unigolion nad oedd ganddynt ddeintydd y GIG ac fe'u cyfeiriwyd wedi hynny at y Porth Mynediad Deintyddol. Cafwyd ymateb positif i'r wybodaeth am y porth ac fe'i croesawyd.
- Sgrinio: Dywedodd y trigolion y siaradwyd â hwy wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio y maent yn gymwys ar eu cyfer a'u bod yn rhagweithiol o ran cael archwiliadau rheolaidd.
- Mynd i'r afael ag un pryder iechyd ar y tro: Derbyniwyd adborth bod ymgynghoriadau gofal iechyd yn aml yn canolbwyntio ar un broblem iechyd ar y tro, a all ei gwneud yn anodd i gleifion sydd â sawl cyflwr neu gyflyrau sy'n gysylltiedig drafod eu holl bryderon yn ystod un apwyntiad.
- Brechiadau: Canmolwyd y brechlyn RSV sydd wedi helpu pobl yn ystod cyfnod y gaeaf. Trafodwyd y Ganolfan Frechu yng Nghwmbrân gyda phobl hefyd a dywedwyd wrthym eu bod yn hapus ei bod ar gael iddynt ymweld â hi.








Beth nesaf?

Dros y misoedd sydd i ddod, bydd y tîm yn parhau i rannu gwybodaeth am:

- Sut alla pobl Gwent gael mynediad at Wasanaethau Sgrinio Canser a chefnogaeth Iechyd Menywod ar gyfer iechyd mislif, atal cenhedlu a gwasanaethau menopos
- Hyrwyddo Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl gan gynnwys **111 Opsiwn 2** a **Melo**

Bydd y tîm hefyd yn ymwneud â staff Bwrdd Iechyd ar draws ein safleoedd ysbyty.

Mae'r holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a'i adolygu i nodi themâu a thueddiadau allweddol. Rydym yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i glywed gyda'r timau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny a chyda uwch arweinwyr. Mae'r mewnwelediadau yn helpu i siapio gwelliannau i wasanaethau, penderfyniadau cynllunio a pholisïau. Rydym hefyd yn anelu at gau'r ddolen trwy rannu diweddariadau gyda chymunedau fel y gall pobl weld sut mae eu hadborth wedi helpu i ddylanwadu ar newid. I gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r gymuned, ewch i'n gwefan: https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-cymunedol/